# I gynghorau heb system llwybr cyflym

Mae clefyd motor niwron (MND) yn gyflwr sy'n datblygu'n gyflym – mae traean o bobl yn marw o fewn blwyddyn i gael diagnosis a hanner o fewn dwy flynedd. Wrth i'r clefyd fynd rhagddo, mae symptomau'n gwaethygu ac anghenion yn cynyddu, yn aml yn anrhagweladwy.

Mae pobl sy'n byw gyda chyflyrau cynyddol neu derfynol fel MND yn haeddu byw mewn cartrefi diogel a hygyrch. Mae ganddyn nhw'r hawl i annibyniaeth ac ansawdd bywyd yn yr amser sydd ganddyn nhw ar ôl.

Rôl ein cyngor yw sicrhau bod pobl leol sy'n byw gydag MND yn cael eu cefnogi i gael mynediad at yr addasiadau cartref sydd eu hangen arnyn nhw mewn modd amserol.

Mae'r system bresennol yn rhy araf i ymateb i anghenion pobl ag MND sy'n newid yn gyflym. Heb gefnogaeth amserol, mae pobl yn wynebu cael eu dal mewn cartrefi anaddas ac anniogel. Mae hyn yn peryglu effeithiau negyddol sylweddol ar eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys risg uwch o dderbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a mynediad cynnar i ofal.

Mae Cymdeithas MND wedi cynnig set o argymhellion ac wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da yn eu hadroddiad diweddar, Rhaff Achub, nid Moethusrwydd (`A Lifeline Not a Luxury').

Un argymhelliad o'r fath yw cyflymu ceisiadau am gyllid a gosod addasiadau cartref. Byddai hyn o fudd mawr i bobl sy'n byw gydag MND, a allai fyw'n ddiogel gartref am gyfnod hirach, cynnal eu hiechyd a'u lles cyhyd â phosibl, a pharhau i ymgysylltu â'u cymunedau, teulu a ffrindiau. Nid oes gan bobl sy'n byw ag MND amser i aros - mae pob dydd yn hanfodol.

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod y dylai pobl â chyflyrau sy'n gwaethygu allu gwneud cais am addasiadau cyn gynted â phosibl ar ôl diagnosis, fel y gellir rhagweld eu hanghenion yn y dyfodol yn hytrach nag ymateb iddynt mewn argyfwng. Mae'r cyngor hwn hefyd yn cydnabod y gall ymyriadau cynnar arbed arian i drethdalwyr drwy alluogi pobl i reoli eu cyflwr yn fwy effeithiol a lleihau'r angen am ymyriadau critigol yn ddiweddarach.

**Motor Neurone Disease Association**
Francis Crick House,
6 Summerhouse Road,
Moulton Park, Northampton NN3 6BJ. UK
www.mndassociation.org

**Contact the campaigns team**

Phone: 0203 875 8910
campaigns@mndassociation.org

**MND Connect helpline**
The MND Connect team offers information and support on all aspects of MND.

Phone: 0808 802 6262
Email: mndconnect@mndassociation.org

**Connect with us**
@mndCampaigns
/mndCampaigns
campaigns@mndassociation.org

## I gynghorau heb system llwybr cyflym

Felly mae'r cyngor hwn yn ymrwymo i gyflwyno proses gyflym ar gyfer cyflawni addasiadau cartref i bobl â chyflyrau cynyddol neu derfynol fel MND, gan sicrhau bod amserlenni targed o 55 diwrnod ar gyfer addasiadau syml a 130 diwrnod ar gyfer addasiadau cymhleth yn cael eu dilyn. Mae'r amserlenni hyn yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a nodir gan safonau cyflawni'r Sefydliad ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Gyda hynny mewn golwg, mae'r cyngor yn cydnabod y dylid ystyried 55 diwrnod (bron i ddau fis) fel uchafswm, ac nad yw'r amserlen hon yn briodol ar gyfer addasiadau llai fel rampiau neu lifftiau grisiau. Y nod yw sicrhau bod yr addasiadau llai hyn yn cael eu cwblhau'n llawer cyflymach.

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau urddas i bobl sy'n byw gydag MND.

**Motor Neurone Disease Association**
Francis Crick House,
6 Summerhouse Road,
Moulton Park, Northampton NN3 6BJ. UK
www.mndassociation.org

**Contact the campaigns team**

Phone: 0203 875 8910
campaigns@mndassociation.org

**MND Connect helpline**
The MND Connect team offers information and support on all aspects of MND.

Phone: 0808 802 6262
Email: mndconnect@mndassociation.org

**Connect with us**
@mndCampaigns
/mndCampaigns
campaigns@mndassociation.org

# I gynghorau sydd â rhywfaint o broses gyflymu

Mae clefyd motor niwron (MND) yn gyflwr sy'n datblygu'n gyflym – mae traean o bobl yn marw o fewn blwyddyn i gael diagnosis a hanner o fewn dwy flynedd. Wrth i'r clefyd fynd rhagddo, mae symptomau'n gwaethygu ac anghenion yn cynyddu, yn aml yn anrhagweladwy.

Mae pobl sy'n byw gyda chyflyrau cynyddol neu derfynol fel MND yn haeddu byw mewn cartrefi diogel a hygyrch. Mae ganddyn nhw'r hawl i annibyniaeth ac ansawdd bywyd yn yr amser sydd ganddyn nhw ar ôl.

Rôl ein cyngor yw sicrhau bod pobl leol sy'n byw gydag MND yn cael eu cefnogi i gael mynediad at yr addasiadau cartref sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol.

Mae'r system bresennol yn rhy araf i ymateb i anghenion pobl ag MND sy'n newid yn gyflym. Heb gefnogaeth amserol, mae pobl yn wynebu cael eu dal mewn cartrefi anaddas ac anniogel. Mae hyn yn peryglu effeithiau negyddol sylweddol ar eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys risg uwch o dderbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a mynediad cynnar i ofal.

Mae Cymdeithas MND wedi cynnig set o argymhellion ac wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da yn eu hadroddiad diweddar, Rhaff Achub, nid Moethusrwydd (A Lifeline Not a Luxury).

Un argymhelliad o'r fath yw cyflymu ceisiadau am gyllid a gosod addasiadau cartref. Byddai hyn o fudd mawr i bobl sy'n byw gydag MND, a allai fyw'n ddiogel gartref am gyfnod hirach, cynnal eu hiechyd a'u lles cyhyd â phosibl, a pharhau i ymgysylltu â'u cymunedau, teulu a ffrindiau. Nid oes gan bobl sy'n byw gydag MND amser i aros - mae pob dydd yn hanfodol.

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod y dylai pobl â chyflyrau sy'n gwaethygu allu gwneud cais am addasiadau cyn gynted â phosibl ar ôl diagnosis, gan alluogi cynllunio rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar cyn i anghenion brys godi. Mae'r cyngor hwn hefyd yn cydnabod y gall ymyriadau cynnar arbed arian i drethdalwyr drwy alluogi pobl i reoli eu cyflwr yn fwy effeithiol a lleihau'r angen am ymyriadau critigol yn ddiweddarach.

**Motor Neurone Disease Association**
Francis Crick House,
6 Summerhouse Road,
Moulton Park, Northampton NN3 6BJ. UK
www.mndassociation.org

**Contact the campaigns team**
Phone: 0203 875 8910
campaigns@mndassociation.org

**MND Connect helpline**
The MND Connect team offers information and support on all aspects of MND.
Phone: 0808 802 6262
Email: mndconnect@mndassociation.org

**Connect with us**
@mndCampaigns
/mndCampaigns
campaigns@mndassociation.org

## I gynghorau sydd â rhywfaint o broses gyflymu

Felly mae'r cyngor hwn yn ymrwymo i adolygu ei broses llwybr cyflym ar gyfer darparu addasiadau cartref i bobl â chyflyrau cynyddol neu derfynol fel MND, a chymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr amserlenni targed o 55 diwrnod ar gyfer addasiadau syml a 130 diwrnod ar gyfer addasiadau cymhleth yn cael eu dilyn. Mae'r amserlenni hyn yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a nodir gan safonau cyflawni'r Sefydliad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Gyda hynny mewn golwg, mae'r cyngor yn cydnabod y dylid ystyried 55 diwrnod (bron i ddau fis) fel uchafswm, ac nad yw'r amserlen hon yn briodol ar gyfer addasiadau llai fel rampiau neu lifftiau grisiau. Y nod yw sicrhau bod yr addasiadau llai hyn yn cael eu cwblhau'n llawer cyflymach.

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau urddas i bobl sy'n byw gydag MND.

**Motor Neurone Disease Association**
Francis Crick House,
6 Summerhouse Road,
Moulton Park, Northampton NN3 6BJ. UK
www.mndassociation.org

**Contact the campaigns team**
Phone: 0203 875 8910
campaigns@mndassociation.org

**MND Connect helpline**
The MND Connect team offers information and support on all aspects of MND.

Phone: 0808 802 6262
Email: mndconnect@mndassociation.org

**Connect with us**
@mndCampaigns
/mndCampaigns
campaigns@mndassociation.org